COSVR558

Cadw, adfer a gosod gwaith plastr ffibrog ar brosiectau cadwraeth neu adfer

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud â chadw, adfer a gosod gwaith plastr ffibrog ar brosiectau cadwraeth neu adfer, dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol, dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar, yn unol â gofynion y sefydliad sy’n cyfateb i’r gofynion statudol a deddfwriaethol presennol neu’n rhagori arnynt

Mae’r safon hon ar gyfer pobl sy’n gweithio ym maes galwedigaethol sgiliau treftadaeth a gall gweithwyr, goruchwylwyr a rheolwyr ei defnyddio

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

**Dehongli gwybodaeth**

P1 dehongli'r wybodaeth am y gwaith a'r adnoddau fel sy'n berthnasol i leoliad daearyddol a'r amodau hinsawdd i gadarnhau ei bod yn berthnasol ar gyfer y canlynol:

- lluniadau
- manylebau
- rhestrau
- datganiadau dull
- asesiadau risg
- gwybodaeth gweithgynhyrchwyr a chyflenwyr
- cyfarwyddiadau llafar, ysgrifenedig neu electronig
- rheoliadau, deddfwriaeth, canllawiau swyddogol a thrwyddedau cyfredol

**Arferion gwaith diogel**

P2 cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gyfredol berthnasol a chanllawiau swyddogol i wneud y gwaith a chynnal arferion gwaith diogel ac iach am y canlynol:

- dulliau gweithio
- defnyddio cyfarpar diogelu personol priodol yn ddiogel
- defnyddio cyfarpar mynediad neu godi yn ddiogel
- defnyddio, storio a thrin deunyddiau, offer a chyfarpar yn ddiogel
- defnyddio cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch yn ddiogel
- risgiau penodol i iechyd a diogelwch galwedigaethol gan gynnwys ymwybyddiaeth o iechyd meddwl
- risgiau penodol sy'n gysylltiedig â deunyddiau peryglus neu rai sy'n cynnwys asbestos
- risgiau penodol sy'n gysylltiedig â gwres, gronynnau, nwy a thrydan sy'n gysylltiedig â phrosesau, cyfarpar a deunyddiau

**Dewis adnoddau**

P3 dewis faint o adnoddau sydd eu hangen ac ansawdd gofynnol yr adnoddau hynny ar gyfer y dulliau gweithio ar gyfer y canlynol:

- deunyddiau a chydrannau
- offer a chyfarpar

**Lleihau'r risg o ddifrod**

P4 cydymffurfio â gweithdrefnau'r sefydliad i leihau'r risg o ddifrod i'r gwaith a'r ardal o'i gwmpas drwy:

- gymryd camau perthnasol i ddiogelu'r mannau gwaith rhag difrod damweiniol neu anfwriadol
- gweithio gydag ymwybyddiaeth o'r amgylchedd mewn cysylltiad â galwedigaethau eraill
- cadw'r man gwaith yn lân ac yn daclus
- gwaredu gwastraff yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol

**Bodloni gofynion y contract**

P5 cydymffurfio â'r wybodaeth yn y contract i baratoi a phaentio arwynebau yn effeithlon yn unol â'r gofynion drwy:

- ddangos sgiliau gwaith i wneud y canlynol:
    - asesu
    - mesur
    - marcio allan
    - cyfnerthu
    - laminiad
    - argraffiad gwasgu
    - tynnu
    - cymysgu
    - bwrw o'r argraffiad gwasgu
    - lleoli

  - diogelu neu osod
  - gorffeniad
- defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer a chyfarpar ategol
- asesu'r amgylchedd presennol gan gynnwys:
  - sefydlogrwydd
  - cefndir
  - mowldinau wedi'u hatodi
  - gosodiad gwreiddiol
- cydweddu â gwaith plastr ffibrog treftadaeth presennol gan ddefnyddio'r canlynol:
  - templed a
  - phedwar o'r argraffiadau gwasgu canlynol:
  - gwasgiad plastr
  - gwasgiad silicôn (thicsotropig)
  - clai
  - darn rhydd o blastr
  - sganio 3D
- cyfnerthu:
  - paratoi arwyneb i'w gyfnerthu
  - clymu'n ôl gan ddefnyddio gwifren a wad ar gyfer gwaith plastr treftadaeth
  - cryfhau yn y fan a'r lle gan ddefnyddio technegau lamineiddio a phwyntiau cryfder
  - creu, atgyfnerthu ac adfer twll mynediad i'r corff (neu agoriad maint tebyg)
- castio ar y safle o wasgiad i wneud gwaith atgyweirio
- cadw, adfer a gosod cydrannau plastr ffibrog yn unol â'r cyfarwyddiadau ymarferol ar gyfer y canlynol:
  - mowldinau rhediad plaen

    - mowldinau addurniadol: cornis
    - mowldinau addurniadol: panel
    - arwynebau crwm: cromen, baril, fowtiau, nenfwd hanner cylch neu golofn

- cwblhau’r gwaith fel bod gorffeniad di-dor sy’n cyfateb â’r gorffeniad presennol ar gyfer y canlynol:
    - agor a chau tyllau mynediad
    - ategwaith i’r mowldin presennol
    - cerfiad
    - cydbwyso
    - gosod cyfoethogiadau

**Amser a neilltuwyd**

P6 cwblhau'r gwaith o fewn yr amser a amcangyfrifwyd ac a neilltuwyd, gan ystyried yr amodau hinsawdd, yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad, y rhaglen waith ac i ddiwallu anghenion galwedigaethau eraill a/neu'r cleient

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*